# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**Cyflwyniad**

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllun trwyddedu llety ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanddarpar. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru drwy roi sicrwydd i ymwelwyr bod y llety yn cyrraedd y safonau y byddent yn eu disgwyl, a rhoi cyfundrefn glir i ddarparwyr.

Bydd y cynllun trwyddedu yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y'i nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf VARL"). O dan y Ddeddf, bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn sefydlu, yn cynnal ac yn cyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn nodi'r math o safle a weithredir ganddynt, a'i leoliad, ledled Cymru. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Bydd y Bil yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o ganolbwyntio ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Un o ganlyniadau eilaidd y Bil hwn fydd sicrhau bod llety ymwelwyr hunanddarpar yn cael ei reoleiddio mewn ffordd sy'n fwy cydnaws â'r sector rhentu preifat, gan sicrhau safonau cyson ar gyfer y math hwnnw o lety, a monitro cydymffurfedd â'r safonau hynny.

Mae'r Bil hefyd yn creu Cod cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori deddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r nod o wella hygyrchedd deddfwriaeth twristiaeth

## Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i amrywiaeth o ofynion sy'n ymwneud â dileu anfanteision i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n eu rhannu, a dileu rhwystrau i gymryd rhan.

Wrth ystyried pob un o'r nodweddion gwarchodedig, mae'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yn pontio nifer o'r ystyriaethau a archwiliwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel rhan o'r cyflwyniad i'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Mae casgliadau'r asesiad effaith a gwblhawyd gan Lywodraeth yr Alban fel rhan o'i gwaith i ddatblygu deddfwriaeth ar gynllun trwyddedu llety gosod tymor byr, a ddaeth i rym yn 2022, hefyd wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad hwn. Er bod cynllun yr Alban wedi'i gyfyngu i lety gosod tymor byr (sy'n debyg i natur y cynigion ar gyfer cam cyntaf ein cynllun ni), ar y cyfan mae'r egwyddorion yn debyg ar draws y sector llety ymwelwyr ehangach hefyd: 10.

Equalities Impact Assessment (EQIA) - Short-term lets – licensing scheme and planning control areas: consultation analysis - gov.scot; 4. Equalities Impact Assessment (EQIA) - Civic Government (Scotland) Act 1982 (Licensing of Short-term Lets) (Amendment) Order 2024: impact assessments - gov.scot

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ystyried effeithiau posibl y Bil ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r Asesiad wedi ystyried effeithiau posibl y polisi ar nodweddion gwarchodedig: Oedran, Anabledd, Rhyw, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Ailbennu Rhywedd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Priodas a Phartneriaeth Sifil, a Chrefydd a Chred y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, a hefyd y rhai yr effeithir arnynt yn anuniongyrchol.

Mae ein hasesiad wedi nodi nad yw'r darpariaethau yn y Bil hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Lle y nodwyd effeithiau negyddol, gwnaed ymdrechion i liniaru neu leihau'r effeithiau hyn.

Bydd y cynllun rheoleiddio a grëir gan y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar unigolion a/neu fusnesau sy'n darparu llety ymwelwyr ar safle y bydd angen ei drwyddedu, yn ogystal ag ymwelwyr sy'n aros dros nos yn y llety hwnnw. Gall y cynllun hefyd gael effaith anuniongyrchol ar brif reoleiddwyr y bydd yn ofynnol iddynt asesu amodau diogelwch penodol neu beryglon a nodwyd yn y llety hwnnw, preswylwyr a busnesau eraill yng nghyffiniau'r llety neu sy'n darparu gwasanaethau iddo, safle'r llety ymwelwyr neu'r busnes.

### *Ymgynghori ac ymgysylltu*

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Strategic Research and Insight (SRI) i ymgynghori â rhanddeiliaid yn 2021 i nodi manteision posibl cyflwyno cofrestr statudol a/neu gynllun trwyddedu ar gyfer gweithredwyr llety gwyliau yng Nghymru Adroddiad SRI. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad dros 13 wythnos ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru, a gynhaliwyd rhwng 16 Rhagfyr 2022 a 17 Mawrth 2023. Cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu penodol pellach â rhanddeiliaid twristiaeth, preswylwyr ac ymwelwyr o fis Mai 2023 ymlaen. Cwmpas yr ymarferion ymgynghori hyn oedd deall lefel y diddordeb a'r ddealltwriaeth o ran yr hyn y gallai cynllun ei olygu.

Ni nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw bryderon nac effeithiau o safbwynt unigolion â nodweddion gwarchodedig. Felly, ceisiodd swyddogion polisi ymgysylltu â'r trydydd sector er mwyn deall unrhyw effeithiau posibl na chawsant eu hystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ehangach. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau a oedd yn cynrychioli unigolion â nodweddion gwarchodedig er mwyn pennu a oedd ganddynt unrhyw safbwyntiau ar effeithiau, uniongyrchol ac anuniongyrchol, y byddai angen eu hystyried a/neu y byddai angen ymgysylltu ymhellach yn eu cylch.

Yn gyffredinol, nododd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gweithgarwch ymgysylltu targededig wybodaeth debyg i'r ymgynghoriad llawn mewn perthynas â chost unrhyw gynllun a'r broses o'i weinyddu, fel cadw unrhyw brosesau'n syml a sicrhau cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl, ynghyd ag awgrym y dylai fod modd addasu ffioedd yn ôl maint y llety a reoleiddiwyd. Codwyd rhai risgiau posibl yn ymwneud â rhannu gwybodaeth am y cynllun a ph'un a allai'r ymyriadau polisi arwain at ostwng cyfraddau cyflogaeth, a allai effeithio ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol yn ehangach.

### *Esemptiadau sy'n cael eu hystyried*

Dim ond i lety ymwelwyr, fel y'i diffinnir yn Neddf VARL y bydd y Bil yn gymwys ac, felly, y bydd yn ofynnol iddo gofrestru. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad yw safleoedd sipsiwn a theithwyr o fewn cwmpas y Bil. Dim ond llety hunanddarpar hunangynhwysol, a ddefnyddir at ddibenion busnes, hamdden neu deithiau addysgol y mae'r Bil yn ei reoleiddio i ddechrau, felly ni fyddai'n cynnwys llety a ddefnyddir yn gyfan gwbl fel tai ar gyfer ceiswyr lloches neu bobl ddigartref, er enghraifft, neu at ddibenion gofal. Mae esemptiadau penodol wedi'u rhoi ar waith i wneud llety a ddarperir yn yr amgylchiadau hyn yn esempt rhag y gofyniad i drwyddedu os bydd yn dod o dan gategori arall yn Neddf VARL.

### *Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb?*

Gellid ymestyn y cynllun trwyddedu yn y dyfodol i unrhyw lety ymwelwyr sy'n cael ei hysbysebu a/neu sy'n derbyn gwesteion. Caiff y cynllun ei gyflwyno fesul cam, gan ddechrau gyda llety ymwelwyr hunanddarpar hunangynhwysol, sef y math o eiddo y byddai llawer yn meddwl amdano wrth gyfeirio at lety gosod tymor byr.

Un o amcanion allweddol y cynllun yw rhoi sicrwydd i ymwelwyr fod llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru yn cydymffurfio â safonau trwyddedu, fel ffordd o hyrwyddo llety yng Nghymru. Bydd y cynllun trwyddedu yn cynnig ffordd o godi pryderon gyda'r darparwr llety ymwelwyr neu'r awdurdod trwyddedu, a allai fod o fudd i ymwelwyr a phreswylwyr lleol a all fod yn agored i niwed neu a fu'n amharod i godi pryderon yn y gorffennol.

Rhoddir canllawiau ategol a hyfforddiant i ddarparwyr llety ymwelwyr y mae’n ofynnol iddynt gael trwydded er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gofynion arnynt.

. Bydd y pecyn hyfforddiant yn canolbwyntio ar elfennau hollbwysig y cynllun y bydd yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gydymffurfio â nhw er mwyn bodloni’r amodau trwyddedu, ond gallai hefyd gynnwys gofynion statudol eraill sy’n berthnasol i’r sector twristiaeth a’i rwymedigaethau i’w ymwelwyr, fel hygyrchedd a datblygu cynaliadwy.

Bydd y cynllun yn cyflwyno amodau ar gyfer llety ymwelwyr hunanddarpar hunangynhwysol, gan gynnwys llety a allai fel arall gael ei ddefnyddio fel preswylfa breifat tymor hwy yn y sector rhentu preifat, er mwyn lleihau’r bwlch rheoleiddio rhwng y ddau.

### *Grwpiau Gwarchodedig*

Rydym wedi nodi’r grwpiau canlynol y gall ein cynigion effeithio arnynt:

Oedolion Ifanc a Phobl Hŷn (oedran)
Pobl anabl
Hil
Rhyw
Crefydd, cred a diffyg cred

## *Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a sut y byddwch yn lliniaru'r rhain?*

### *Oedran*

Mae gwaith yn y sector twristiaeth yn aml yn fwy ansicr. Yn benodol, mae cyflogeion yn fwy tebygol o gael eu cyflogi'n rhan-amser neu dros dro neu dreulio llai o amser yn gweithio i'r un cyflogwr[1]. At hynny, mae'r rhai a gyflogir yn y sector twristiaeth fel arfer yn iau, [2]ac yn 2022, roedd 38% o'r gweithwyr rhwng 16 a 29 oed[3]. Data ar gyfer y sector twristiaeth cyfan yw'r rhain, nid o reidrwydd ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr, neu'r rhai sy'n gweithio yn y sector llety, lle mae'r data yn gyfyngedig. Fodd bynnag, maent wedi'u hystyried yma am fod y Bil yn anelu at hybu twristiaeth yng Nghymru, ac mae perfformiad y sector llety yn bwysig i berfformiad y sector twristiaeth ehangach ac yn gysylltiedig ag ef. Er mai nod cyffredinol y cynllun trwyddedu yw hyrwyddo llety yng Nghymru, mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr ymylol a/neu achlysurol o'r farn bod costau cydymffurfio â'r cynllun yn eu hatal rhag parhau i weithredu, a allai, yn ei dro, arwain at gyflogwyr yn lleihau oriau, yn recriwtio llai, yn ffrwyno cynlluniau buddsoddi, yn gostwng cyflogau neu'n dileu swyddi. Yn y pen draw, gall hyn effeithio ar gyflogeion sy'n debygol o fod yn y proffil oedran iau. Mae'r canlyniadau hyn yn ansicr, a hynny'n anochel, oherwydd dylai darparwyr eisoes fod yn ymwybodol o'r gofynion rheoliadol presennol ac yn cydymffurfio â nhw. Mae rhai eisoes yn rhagori ar y gofynion hyn drwy fod yn aelodau o grwpiau ymgysylltiedig sy'n eu helpu i gyrraedd mwy o bobl gyda'u negeseuon marchnata, neu'n gysylltiedig â'r grwpiau hynny.

Yn y pen draw, bydd ffactorau ehangach yn dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a chyflogwyr, gan gynnwys y cyd-destun macro-economaidd, felly ni fyddai disgrifio union effaith economaidd cynllun trwyddedu yn ddichonadwy. Bydd ffactorau fel y tywydd, yr amser o'r flwyddyn, lefelau incwm gwario, yr hyn y mae cyrchfannau eraill yn ei wneud, cyflwr yr economi a ffactorau eraill yn effeithio ar ymddygiad ymwelwyr a gallu darparwyr i barhau i weithredu.

Y bwriad yw i'r cynllun trwyddedu fod yn wasanaeth digidol yn bennaf, a disgwylir y bydd y mwyafrif helaeth o ddarparwyr yn hyderus i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein am fod y rhan fwyaf o weithgarwch marchnata a gweithredu yn digwydd ar-lein. I'r unigolion hynny a all ddibynnu ar asiantiaid trefnu ar gyfer eu gwasanaethau digidol, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried sut i gefnogi unrhyw un y gallai fod angen help arno gyda hygyrchedd TG.

---

[1] Travelling light: Labour shortages hampering sustainable recovery for tourism - Cogito (oecdcogito.blog)
[2] Tourism employment summaries - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[3] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-06/welsh-tourism-sector-business-and-labour-market-statistics-2016-to-2021.ods

Yn ôl arolwg gan Gymdeithas Broffesiynol y Darparwyr Llety Hunanddarpar yn 2022, mae proffil oedran darparwyr llety ymwelwyr yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r darparwyr dros 50 oed. [4] Yn ôl Age UK, nid yw chwarter y bobl 65 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngrwyd.

### *Pobl anabl*

O ran gweithgarwch twristiaeth, amcangyfrifir bod 30% o'r holl deithiau i Gymru yn cynnwys rhywun sy'n anabl neu sydd ag amhariad, sy'n uwch na chanran y teithiau i unrhyw le arall ym Mhrydain Fawr[5]. Gan mai prif ffocws y cynllun trwyddedu fydd rhoi sicrwydd bod llety ymwelwyr yn cyrraedd y safonau gofynnol, bydd yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu nodi ffyrdd hygyrch y gall ymwelwyr godi pryderon.

Ni wnaed penderfyniad ynghylch sut y bydd y cynllun trwyddedu yn cael ei weinyddu. Fodd bynnag, disgwylir y bydd profiad darparwyr llety ymwelwyr o wneud cais am drwyddedau a'u rheoli yn gydnaws â'r gofrestr, y bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn gyfrifol amdani. Mae'r Awdurdod yn cynnig datblygu gwasanaeth a fydd yn cynnwys nifer o ffyrdd y gall person ryngweithio. Dylai hyn arwain at fawr ddim effaith ar berchnogion busnes ag amhariadau ar y golwg/neu'r clyw i'r eithaf. Bydd system ddigidol ar gyfer gwneud cais am drwydded ac i ddiweddaru'r cofnod, ochr yn ochr â chymorth pan fo angen. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cymhwyso egwyddorion tebyg mewn cydweithrediad ag Awdurdod Refeniw Cymru – mae'r egwyddorion ar gyfer dylunio a chreu cynhyrchion llyw.cymru yn cynnwys egwyddor ar gyfer sicrhau bod cynhyrchion yn addas i bawb ac mor gynhwysol â phosibl[6]. Y bwriad yw y byddai cydymffurfedd y gwasanaeth newydd â'r safonau a'r egwyddorion hyn (gan gynnwys hygyrchedd) yn cael ei phrofi.

Ni ddisgwylir i'r cynllun trwyddedu gael effaith negyddol ar ddarparwyr llety ymwelwyr anabl, gan gynnwys pobl ag amhariadau dysgu, o ganlyniad i'r gwasanaethau pwrpasol a gynigir gan Awdurdod Refeniw Cymru/yr awdurdod trwyddedu yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried hygyrchedd ymgyrchoedd cyfathrebu er mwyn sicrhau bod darparwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn eu deall, a'u bod yn gwybod ble y gallant gael gafael ar wybodaeth ychwanegol i gefnogi unrhyw anghenion penodol.

### *Crefydd, cred a diffyg cred*

Mae rhai pobl yn ymweld â Chymru am resymau crefyddol neu i ddilyn diddordebau cyffredinol mewn pensaernïaeth grefyddol[7]. Canfu dadansoddiad o dwristiaid domestig fod 174,456 o bobl wedi ymweld ag eglwys gadeiriol, eglwys, abaty neu adeilad crefyddol arall yn

[4] fhl-survey-220822.pdf

[5] Adroddiad Blynyddol a Thablau 2022 Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr
[6] Understanding WCAG 2.2 - Service Manual - GOV.UK (www.gov.uk)
[7] Faith tourism | Historic churches and chapels | Croeso Cymru

2023, sef y gyfran leiaf ar draws mathau gwahanol o atyniadau i ymwelwyr[8]. Mae rhai adeiladau crefyddol bellach yn cynnig y cyfle i wersylla dros nos ar y safle, a chyflwynwyd y cysyniad o 'champing' neu wersylla dros nos mewn eglwysi hanesyddol gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi yn ddiweddar: Champing™ - The simple concept of camping in ancient churches. Gwirfoddolwyr fydd llawer o warcheidwaid yr adeiladau hyn, felly mae'n bosibl mai capasiti cyfyngedig fydd ganddynt i ymgysylltu â'r cynllun rheoleiddio newydd ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i wneud cais. Fel rhan o'i wasanaeth, bydd yr awdurdod trwyddedu yn darparu swyddogaeth canolfan gyswllt er mwyn helpu i dywys ceiswyr drwy'r broses, ac yn yr un modd, mae Awdurdod Refeniw Cymru yn datblygu ei ddull o ymdrin â'r cynllun cofrestru. Fodd bynnag, ni fydd y rhan fwyaf o'r math hwn o lety yn rhan o gam cyntaf y cynllun trwyddedu.

Mae'n bosibl y bydd effaith andwyol ar y rhai nad ydynt yn defnyddio prosesau digidol fel rhan o'u ffydd, ond fel y nodwyd uchod, bydd cymorth ar gael.

Defnyddir llety ymwelwyr hefyd i gefnogi pererindodau yng Nghymru. Dim ond os caiff llety ei ddarparu at ddibenion masnach neu fusnes, yn unol â'r diffiniad yn Neddf VARL, y bydd yn dod o dan gwmpas y cynllun trwyddedu newydd, felly ni fyddai angen ei drwyddedu o reidrwydd pe bai'n cael ei ddarparu'n elusennol neu yn gyfnewid am roddion gwirfoddol. Bwriad cyffredinol y cynllun yw hyrwyddo llety yng Nghymru, ond mae risg y gall darparwyr ymylol a/neu achlysurol ddewis rhoi'r gorau i weithredu.

### *Rhyw*

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn gymwys i bob math o ddarparwr llety ymwelwyr y bydd angen trwydded arno ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail rhyw.

Yn 2022, roedd 56% o'r teithiau i Gymru gan ymwelwyr benywaidd ac roedd 43% o'r teithiau gan ymwelwyr gwrywaidd[9]. Efallai fod menywod yn fwy tebygol o wneud gwaith rhan-amser, ac mae gwaith rhan-amser yn llawer mwy cyffredinol mewn sectorau fel twristiaeth[10]. Mae tua 54% o weithlu'r sector llety a gwasanaethau bwyd yng Nghymru yn fenywod[11]. Wrth edrych ledled Ewrop, mae cyfran y menywod yn y gweithlu twristiaeth yn aml yn uwch hefyd, ond mae enillion mewn gwestai a bwytai yn is na'r enillion cyfartalog yn yr economi[12].

Bwriedir i'r cynllun trwyddedu gefnogi'r sector twristiaeth, felly ar y cyfan, dylai'r effaith fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae risg y bydd effaith anghymesur ar fenywod os bydd darparwyr achlysurol, ymylol llety ymwelwyr yn dewis rhoi'r gorau i weithredu.

---

[8] Data heb eu cyhoeddi
[9] Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain Fawr, Arolwg Twristiaeth Dros Nos Cymru, Adroddiad Blynyddol: 2022 | LLYW.CYMRU
[10] UDW SSS Tackling undeclared work in the tourism sector.pdf (europa.eu)
[11] Data NOMIS yn dangos swyddi'r gweithlu yn y sector llety ac ati yng Nghymru, yn ôl rhywedd, Rhag 2024 http://www.nomisweb.co.uk/livelinks/17239.xlsx
[12] 5js4rv0g7szr-en.pdf (oecd-ilibrary.org)

Mae risg bosibl, mewn achosion o reolaeth drwy orfodaeth, y gall troseddau neu achosion o dorri trwydded fod o ganlyniad i orfodaeth. Byddai angen i brosesau trwyddedu gweithredol sicrhau bod cymorth ar gael pan fydd achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio ac y caiff esgus rhesymol ei ganiatáu fel amddiffyniad fel bod modd ystyried amgylchiadau trosedd.

### *Ystyriaethau o ran hil, gan gynnwys digartrefedd, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Roma, ceiswyr lloches a ffoaduriaid a menywod sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig, a phobl ethnig leiafrifol.*

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn gymwys i bob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru, ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar sail hil nac ethnigrwydd.

Yn ôl data ar Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd (Cyfrifiad 2021) yn 2021, roedd 155,000 o bobl yng Nghymru (5.0% o'r boblogaeth) yn ystyried eu bod yn perthyn i grŵp ethnig ar wahân i wyn[13]. Mae data ar y farchnad lafur wedi dangos bod ceiswyr gwaith o gefndir ethnig lleiafrifol yn ei chael hi'n anos dod o hyd i waith a'u bod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi ansicr, er enghraifft yn y sector twristiaeth. Yng Nghymru, mae cyfran uwch o'r gweithlu twristiaeth yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o gymharu â'r holl ddiwydiannau (9.6% o'r gweithlu twristiaeth o gymharu â 4.4% o weithlu'r holl ddiwydiannau yn 2021)[14]. Bwriad cyffredinol y cynllun trwyddedu yw hyrwyddo llety ymwelwyr yng Nghymru, ond gall fod risgiau i gyflogaeth o ganlyniad i lai o lety ymwelwyr wrth i ddarparwyr adael y sector. Mae'n anodd meintioli'r risg hon, ond – yr un modd ag y gwnaethom asesu unrhyw effeithiau ar sail oedran neu ryw – credir y bydd yn risg fach, oherwydd disgwylir y bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr eisoes yn ymwybodol o'r gofynion sy'n sail i'r cynllun trwyddedu ac yn cydymffurfio â nhw.

Yn y pen draw, bydd ffactorau ehangach yn dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a chyflogwyr, gan gynnwys y cyd-destun macro-economaidd, felly ni fyddai disgrifio union effaith economaidd cynllun trwyddedu yn ddichonadwy. Bydd ffactorau fel y tywydd, yr amser o'r flwyddyn, lefelau incwm gwario, yr hyn y mae cyrchfannau eraill yn ei wneud, cyflwr yr economi a ffactorau eraill yn effeithio ar ymddygiad ymwelwyr a gallu darparwyr i barhau i weithredu.

### *Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:*

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am grwpiau | Mae'n bosibl y bydd pobl iau yn deall mwy am TG ac yn fwy | | Rhoi cymorth i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â |

[13] Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU
[14] Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 6 i 17 Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| oedran gwahanol) | cyfforddus yn defnyddio prosesau cyfathrebu a gwneud cais digidol. I'r gwrthwyneb, efallai na fydd rhai pobl hŷn, a all fod yn fwy tebygol o fod yn berchen ar lety gosod tymor byr, yn meddu ar y sgiliau TG na'r hyder i ddefnyddio'r gwasanaeth.<br><br>Mae effeithiau gwahanol yn bosibl yn seiliedig ar gyfansoddiad y gweithlu twristiaeth. Nod y Bil yw cefnogi twristiaeth, felly disgwylir y bydd y cynnig yn rhoi mwy yn ôl i gymdeithas na'r hyn y bydd yn ei gymryd oddi wrthi, er y gall fod effaith negyddol ar rai unigolion. | | gwasanaethau digidol a dysgu o'r broses o roi'r cynllun cofrestru ar waith er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gydgysylltiedig ac yn hygyrch.<br><br>Anelu at sicrhau bod y cynllun trwyddedu yn syml a rheoli costau, er mwyn lliniaru'r effaith ar ddarparwyr llety, a'i reoli'n effeithiol i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru. |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[15] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu | Bydd system ddigidol yn ffactor galluogi i rai, ond gall fod yn rhwystr i eraill. Mae hyn yn wir am ddarparwyr llety ymwelwyr, ymwelwyr sydd â chwynion am eu llety a phobl sy'n cael gafael ar | | Sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ar hygyrchedd ceisiadau digidol.<br>Sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig ffyrdd hygyrch o gwyno |

[15] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan amhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, y bydd eich cynnig. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| y gallai gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariad) | wybodaeth drwy'r cyfeiriadur. | | i'r awdurdod trwyddedu. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd camau priodol i'w hatal. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd camau priodol i'w hatal. |
| Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi<br><br>Mae effeithiau gwahanol yn bosibl yn seiliedig ar gyfansoddiad y | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lloches a Ffoaduriaid) | gweithlu twristiaeth. Nod y Bil yw cefnogi twristiaeth, felly disgwylir y bydd y cynnig yn rhoi mwy yn ôl i gymdeithas na'r hyn y bydd yn ei gymryd oddi wrthi, er y gall fod effaith negyddol ar rai unigolion. | | gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd camau priodol i'w hatal.<br><br>Anelu at sicrhau bod y cynllun trwyddedu yn syml a rheoli costau, er mwyn lliniaru'r effaith ar ddarparwyr llety, a'i reoli'n effeithiol i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru. |
| Crefydd a chred a diffyg cred | Lle y caiff adeiladau crefyddol eu defnyddio fel llety ymwelwyr, mae'n bosibl y byddant yn dibynnu'n anghymesur ar wirfoddolwyr, y gall fod angen cymorth arnynt i wneud cais am drwydded. | | Caiff cymorth gweithredol ei ystyried i ddarparu cymorth lle bo angen. |
| Rhyw / Rhywedd | Mae risg bosibl, mewn achosion o reolaeth drwy orfodaeth, y gall troseddau neu achosion o dorri trwydded fod o ganlyniad i orfodaeth.<br><br>Mae effeithiau gwahanol yn bosibl yn seiliedig ar gyfansoddiad y gweithlu twristiaeth. Nod y Bil yw cefnogi twristiaeth, felly disgwylir y bydd y cynnig yn rhoi mwy yn ôl i gymdeithas na'r hyn y bydd yn ei | | Byddai angen i brosesau trwyddedu gweithredol sicrhau bod cymorth ar gael pan fydd achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio ac y caiff esgus rhesymol ei ganiatáu fel amddiffyniad.<br><br>Anelu at sicrhau bod y cynllun trwyddedu yn syml a rheoli costau, er mwyn lliniaru'r effaith ar ddarparwyr llety, a'i reoli'n effeithiol i hyrwyddo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gymryd oddi wrthi, er y gall fod effaith negyddol ar rai unigolion. | | twristiaeth yng Nghymru. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd camau priodol i'w hatal. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd camau priodol i'w hatal. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol wedi'u nodi. | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | camau priodol i'w hatal. |
| Aelwydydd incwm isel | Am ragor o fanylion, gweler yr asesiad o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyfer y Bil. | | Byddwn yn monitro'r broses o roi'r cynigion ar waith ac yn cadw llygad am dystiolaeth newydd sy'n awgrymu unrhyw effeithiau negyddol, gwahaniaethu neu ymddygiad gwaharddedig gwirioneddol neu bosibl, gan gymryd camau priodol i'w hatal. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**
A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl, yn eich barn chi? (*Gweler pwynt 1.4 o'r Canllawiau ar Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 1 y Protocol Cyntaf (A1P1) (Diogelu eiddo) | Mae darpariaethau yn y Bil lle mae A1P1 yn berthnasol ar y sail eu bod yn rheoli'r defnydd o eiddo (ei atal rhag cael ei gynnig neu ei ddarparu fel llety ymwelwyr rheoleiddiedig heb drwydded) Gall methiant i gydymffurfio ag amodau trwydded arwain at ddirymu'r drwydded. | Mae angen darpariaeth o'r fath er mwyn i'r cynllun trwyddedu gael yr effaith fwriadedig. | Gellir cyfiawnhau ymyrryd â hawliau eiddo pan fydd hynny o fudd i'r cyhoedd. Mae sail resymol dros y darpariaethau yn y Bil ac maent yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng gofynion budd cyffredinol y gymuned a diogelu hawliau sylfaenol unigolyn. Bydd y gweithdrefnau hysbysu a chynrychioli a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil yn galluogi darparwyr llety ymwelwyr i herio honiadau gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Weinidogion Cymru a/neu unioni ymddygiad cyn i drwydded gael ei ddirymu. |
| Erthygl 8 (Parch at fywyd teuluol a phreifat) | Mae darpariaethau yn y Bil lle mae Erthygl 8 yn berthnasol ar y sail eu bod yn grymuso Gweinidogion Cymru neu eu swyddogion awdurdodedig i gynnal arolygiadau o safleoedd i bennu a ellir eu trwyddedu ac mewn amgylchiadau lle byddant yn amau bod trosedd yn cael ei chyflawni neu fod un o amodau trwydded wedi'i thorri. Oherwydd y mesurau diogelu a'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Bil, nid oes achos o dorri A8. | Mae angen darpariaeth o'r fath er mwyn sicrhau y caiff trwyddedau eu cyhoeddi'n briodol ac y gellir nodi achosion o dorri trwydded neu droseddau trwyddedu a mynd i'r afael â nhw'n effeithiol. | Mae llwybrau eraill wedi'u cynnwys, fel ymgysylltu â darparwyr llety ymwelwyr a'i gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth er mwyn sicrhau mai dim ond lle bo angen y caiff pwerau arolygu eu harfer. Dim ond lle bo hynny'n rhesymol y gellir cynnal arolygiadau. Mae pwerau mynediad yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cynnwys mynediad â grym. Mae proses gwarant wedi'i chynnwys lle bo angen fel bod ystyriaeth farnwrol briodol yn cael ei rhoi i unrhyw darfu ar hawliau'r darparwr llety ymwelwyr lle na fydd safle wedi'i drwyddedu, neu lle bydd mynediad wedi'i wrthod. Nod hyn yw sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau'r darparwr llety ymwelwyr a'r budd y cyhoedd wrth sicrhau nad yw llety ymwelwyr yn anaddas i ymwelwyr nac yn tanseilio'r sector llety ymwelwyr yng Nghymru. |
| Erthygl 6 (yr hawl i wrandawiad | O dan y Bil, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud | Mae angen darpariaeth o'r fath er mwyn i'r | Mae'r Bil yn creu gweithdrefnau i alluogi darparwyr llety |

| | | | |
|---|---|---|---|
| teg wrth bennu hawliau sifil) | penderfyniadau ar ddyfarnu, diwygio a dirymu trwyddedau a phryd i gynnal erlyniadau mewn perthynas â throseddau o dan y Bil.<br><br>Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod Erthygl 6 yn berthnasol ond nad oes unrhyw effaith negyddol ar hawliau Erthygl 6. | cynllun trwyddedu weithredu'n effeithiol. | ymwelwyr i wneud sylwadau priodol cyn i'r awdurdod trwyddedu wneud penderfyniadau penodol, ac mae'n creu hawliau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol a chydymffurfedd ag Erthygl 6.<br><br>Caiff troseddau eu herlyn drwy'r Llys Ynadon yn unol â'i weithdrefnau gan sicrhau cydymffurfedd ag Erthygl 6. |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**
Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi am na fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn trin dinasyddion yr UEE/AEE/y Swistir yn wahanol i breswylwyr y DU.